| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

# TGAU

4272/52

S17-4272-52

# HANES
## UNED 2: ASTUDIAETH FANWL
## Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad yng Nghymru a Lloegr, 1930-1951

DYDD MERCHER, 14 MEHEFIN 2017 – PRYNHAWN

1 awr 15 munud

| I'r Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **1.** | **17** | |
| **2.** | **18** | |
| **3.** | **16** | |
| **SAG** | **3** | |
| **Cyfanswm** | **54** | |

4272
520001

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

**Atebwch BOB cwestiwn ar y papur arholiad.**

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen barhad yng nghefn y llyfryn, ac os nad yw hynny'n ddigon, defnyddiwch lyfryn parhad 4 tudalen (pinc). Ysgrifennwch eich enw ar flaen y llyfryn parhad, gan nodi'n glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch y llyfryn parhad y tu mewn i'r llyfryn hwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch y bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei ystyried wrth asesu'r atebion sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig, sef cwestiynau 1*(c)* a 3*(b)*.

**Hefyd, bydd eich gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 3*(b)*.**

Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

## CWESTIWN 1

**Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar effaith blynyddoedd y Dirwasgiad.** [17]

Astudiwch y ffynhonnell isod ac yna atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**




[Ffotograff yn dangos dynion di-waith yn Llundain, 1930]

*(a)* Defnyddiwch Ffynhonnell A a'r hyn rydych chi'n ei wybod i ddisgrifio effeithiau Cwymp Wall Street ar Gymru a Lloegr. [3]

Arholwr yn unig

*(b)* Esboniwch pam cafodd y Dirwasgiad effaith sylweddol ar fywydau menywod. [6]

4272
520003

Arholwr yn unig

Astudiwch y ddwy ffynhonnell hyn sy'n sôn am effeithiau'r Dirwasgiad yn yr 1930au ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell B**

Unwaith roeddwn i'n ôl yn byw yng Nghymru, roeddwn i'n gallu gweld yr effaith waradwyddus *(humiliating)* ac ofnadwy roedd diweithdra yn ei chael, yn enwedig yn y cymoedd glofaol lle roedd yn ymddangos bod pob gobaith wedi diflannu. Roedd dynion yn sefyll ar gornel y stryd, heb wybod beth i'w wneud â'u hunain. Roedd pobl yn llwglyd *(hungry)* iawn. Roedd yn rhaid i chi gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, fel yr orymdaith newyn *(hunger march)*, fyddai'n gwneud i bobl deimlo eu bod yn ymladd yn ôl.

[Dora Cox, yn siarad mewn cyfweliad ar Radio'r BBC yn 1985. Roedd hi'n cofio am ei rhan mewn gorymdaith newyn o Gymru yn 1934]

**Ffynhonnell C**

Rhywbeth dros dro oedd y Dirwasgiad ym Mhrydain ac roedd y cyfnod gwaethaf wedi mynd heibio erbyn diwedd 1933. Ni wnaeth atal y gwelliant cyson yn safonau byw pobl. Roedd y cwymp mewn prisiau mor sylweddol nes iddo achosi i gostau byw ostwng. I'r rhai nad oedd yn gweithio mewn diwydiannau traddodiadol, cafodd cymdeithas fwy cyfoethog ei sefydlu yn y cyfnod hwn, ac roedd hyn yn amlwg iawn yn ne Lloegr. Oherwydd hyn, roedd y rhan fwyaf o bobl yn ymdopi'n dda.

[L.C.B. Seaman, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei werslyfr ar gyfer prifysgolion, *Post-Victorian Britain 1902-1951*, a gafodd ei gyhoeddi yn 1966]

*(c)* Pam mae Ffynonellau B ac C yn rhoi safbwyntiau gwahanol am effeithiau'r Dirwasgiad yn yr 1930au? [8]

*Yn eich ateb, dylech sôn am gynnwys ac awduraeth (authorship) y ffynonellau.*

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

4272 520005

**DIWEDD CWESTIWN 1**

| |
|---|
| |
| 17 |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**CWESTIWN 2**

**Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar effaith y rhyfel ar fywyd ar y Ffrynt Cartref.** [18]

*(a)* Disgrifiwch bolisi dyhuddo *(appeasement)* Prydain yn ystod yr 1930au. [4]

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

*(b)* Esboniwch pam roedd propaganda a sensoriaeth yn bwysig yn ystod yr Ail Ryfel Byd. [6]

Arholwr yn unig

*(c)* Pa mor bwysig oedd cyfraniad menywod at ymdrech y rhyfel? [8]

18

**DIWEDD CWESTIWN 2**

Arholwr yn unig

## CWESTIWN 3

**Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a Lloegr ar ôl y rhyfel.** [16+3]

*(a)* Amlinellwch **yn gryno** beth oedd prif bwyntiau Adroddiad Beveridge. [4]

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

Arholwr yn unig

*(b)* Pa mor llwyddiannus oedd Llywodraeth Lafur 1945-51 wrth ddelio â'r problemau oedd yn wynebu Cymru a Lloegr ar ôl y rhyfel? [12]

*Yn eich ateb, dylech drafod llwyddiannau a methiannau'r Llywodraeth Lafur ar ôl y rhyfel.*

*Yn y cwestiwn hwn, mae marciau'n cael eu rhoi am sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir.* [3]

Arholwr yn unig

**DIWEDD CWESTIWN 3**

16

**DIWEDD Y PAPUR**

SAG 3

Arholwr yn unig

**Parhad yn unig.**

**Os ydych chi'n defnyddio'r llinellau isod, nodwch yn glir bob tro pa gwestiwn rydych chi'n parhau i'w ateb.**